



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2017 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 335A2018-19



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Anne Beegan, Jeremy Saunders, Dave Thomas ac Ann-Marie Harkin

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Yr adroddiad hwn	8
Adran 1: archwiliad o gyfrifon	9
Rwyf wedi rhoi barn amodol ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2016-17 y Bwrdd Iechyd ac, wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater ac wedi cyflwyno adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn archwilio	9
Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau	10
Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau ariannol sylweddol ac, er bod y dull o gynllunio a chyflawni arbedion yn atgyfnerthu'r trefniadau sydd ar waith, nid yw'n helpu'r Bwrdd i adennill ei ddiffygion ariannol eto	11
Mae'r Bwrdd wedi parhau â'r gwaith o ddiffinio ei ofynion sicrwydd ac mae cynlluniau strategol yn mynd rhagddynt, ond mae angen iddo ddatblygu ei strwythurau gweithredol a'i drefniadau rheoli perfformiad ymhellach	14
Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol	18
Atodiadau	
Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf	25
Atodiad 2 – ffi archwilio	26
Atodiad 3 – risgiau archwilio sylweddol	27

Adroddiad cryno

Crynodeb

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2017. Ymgymerais â'r gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
- 2 Canolbwyntiodd fy ngwaith archwilio ar flaenoriaethau strategol a'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae'r adroddiadau ar wahân a baratowyd gennyf yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rhagor o fanylion ar yr agweddau penodol ar fy ngwaith archwilio. Awn ati i drafod yr adroddiadau hyn a chytuno ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau hyn i'w gweld yn [Atodiad 1](#).
- 3 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gennym i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 9 Ionawr 2018. Caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2018 a bydd pob aelod yn cael copi ohono. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar [wefan Swyddfa Archwilio Cymru](#).
- 4 Gellir crynhoi fy ngwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

Adran 1: archwiliad o gyfrifon

- 5 Rwyf wedi rhoi barn amodol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17, ac wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater.
- 6 Mae'r amod yn ymwneud â'r farn ar reoleidd-dra yn unig, a hynny am fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â chyflawni'r gyntaf o'i ddwy ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod o dair blynedd sy'n dod i ben 2016-17.
- 7 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, gosodais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd er mwyn tynnu sylw at ei fethiant i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol.
- 8 Hefyd, deuthum i'r casgliad i gyfrifon y Bwrdd Iechyd gael eu paratoi yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol.
- 9 Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon.
- 10 Ceir rhagor o fanylion am y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn adran 2 o'r adroddiad hwn.

Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

- 11 Archwiliais drefniadau cynllunio a rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, ei drefniadau llywodraethu a sicrwydd, a'i gynnydd o ran y materion gwella a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd. Gwnes hyn er mwyn bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Rwyf hefyd wedi cynnal adolygiadau Archwilio Perfformiad ar feysydd darparu gwasanaethau penodol. Nodir fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn isod.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau ariannol sylweddol ac, er bod y dull o gynllunio a chyflawni arbedion yn atgyfnerthu'r trefniadau sydd ar waith, nid yw'n helpu'r Bwrdd i adennill ei ddiffygion ariannol eto

- 12 Mae'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'm hadolygiad o drefniadau cynllunio a chyflawni arbedion ariannol y Bwrdd Iechyd fel a ganlyn:
- er bod perfformiad y Bwrdd Iechyd o ran sicrhau arbedion yn 2017-18 yn edrych yn fwy addawol, mae gorwariant hanesyddol yn erbyn terfynau adnoddau yn golygu y rhagwelir y bydd ganddo ddiffyg cronol cynyddol o £139.7 miliwn erbyn mis Mawrth 2018;
 - ni fu'r trefniadau blaenorol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion yn effeithiol nac yn gynaliadwy, ond mae arwyddion bod pethau'n gwella ers cyflwyno'r broses drawsnewid gyda chyfle i wella'r ffocws ar drawsnewid gwasanaethau, gwella gwerth, effeithlonrwydd a lleihau gwastraff; ac
 - er bod y trefniadau sydd ar waith i fonitro a chraffu ar arbedion yn cael eu hatgyfnerthu, nid ydynt wedi'u cynnwys yn ddigonol eto ac mae mwy o waith i'w wneud o hyd ar lefel weithredol.

Mae'r Bwrdd wedi parhau â'r gwaith o ddiffinio ei ofynion sicrwydd ac mae cynlluniau strategol yn mynd rhagddynt, ond mae angen iddo ddatblygu ei strwythurau gweithredol a'i drefniadau rheoli perfformiad ymhellach

- 13 Mae'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'm hadolygiad o drefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd fel a ganlyn:
- mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau datblygu ei strategaeth hirdymor ond nid oes digon o gynnydd wedi'i wneud hyd yma i lywio'r cylch cynllunio nesaf, ac mae angen gwneud mwy o waith i fonitro'r ffordd y mae'r cynllun blynyddol yn cael ei roi ar waith ar lefel weithredol;
 - mae strwythur sefydliadol diwygiedig y Bwrdd Iechyd yn aeddfedu ond gallai elwa ar drefniadau gweithio agosach rhwng gwasanaethau corfforaethol a gweithredol;

- mae trefniadau sicrwydd y Bwrdd yn parhau i ddatblygu ac mae cynlluniau ar waith i wella effeithiolrwydd pwylgorau, er bod effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd yn gadarn ar y cyfan;
- mae trefniadau rheoli risg yn parhau i gryfhau ond mae angen gwneud mwy ar lefel weithredol;
- mae trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn helpu'r Bwrdd i gydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol, ond bydd ateb yr heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd a gofynion Cyber Essentials yn anodd gyda'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd;
- mae angen i drefniadau rheoli perfformiad y Bwrdd lechyd gael eu cryfhau ar lefel weithredol er mwyn sicrhau bod modd rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd a'i bwylgorau;
- o ganlyniad i faterion staffio, ychydig iawn o gynnydd y mae'r Bwrdd lechyd wedi'i wneud o ran y defnydd o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod achosion o dwyll a gordaliadau, ond mae hyn wedi gwella'n ddiweddar; ac
- mae'r Bwrdd lechyd yn gwneud cynnydd cyson o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd ac mae trefniadau effeithiol ar waith i olrhain hynt argymhellion archwilio.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

- 14 Mae'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'm hadolygiadau archwilio perfformiad fel a ganlyn:
- mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd camau sylweddol i wella'r broses o gynnwys rhanddeiliaid a chryfhau ei drefniadau ym maes gwybodeg, ond mae'n dal i ddibynnu ar gapasiti allanol i ysgogi newid ac mae angen iddo ddatblygu ei weithlu ymhellach;
 - er bod y gwasanaeth radioleg yn cael ei reoli'n dda ar lefel weithredol, mae gwasanaethau presennol a gwasanaethau yn y dyfodol yn wynebu risgiau yn sgil galw cynyddol, ôl-groniadau o ran adroddiadau, materion recriwtio a system TG nad yw'n diwallu anghenion y Bwrdd lechyd;
 - mae diffygion o ran trefniadau llywodraethu a materion y gweithlu sy'n bygwth cynaliadwyedd y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau; a nododd fy nhîm fod lle i wella negeseuon cyhoeddus am y gwasanaeth, agweddau ar ateb galwadau a'r rhyngwynebau â gwasanaethau eraill;
 - mae rhywfaint o welliant o ran mesurau perfformiad allweddol sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion ond bydd yn rhaid aros peth amser cyn i ni weld effaith lawn y mentrau gwella;
 - mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd cyson o ran mynd i'r afael ag argymhellion gwaith archwilio blaenorol er bod y cynnydd yn gallu bod yn

araf ac mae angen cymryd camau pwysig o hyd mewn perthynas ag apwyntiadau dilynol i gleifion allanol;

- mae trefniadau comisiynu ar y cyd wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig o ran gwasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru; fodd bynnag, mae angen mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid er mwyn datblygu'r trefniadau hyn; ac
- nid yw trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent.

15 Hoffem ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

Adroddiad manwl

Yr adroddiad hwn

- 16 Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn ar gyfer 2017 i aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2017.
- 17 Rwy'n ymgymryd â'm gwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004¹. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
 - bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; ac
 - bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
- 18 Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
 - gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu a sicrwydd;
 - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
 - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
 - gwaith arall, megis ymarferion paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol.
- 19 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn **Atodiad 1**.
- 20 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
- adran 1: archwiliad o gyfrifon
 - adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau
- 21 Rhydd **Atodiad 2** yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2017.
- 22 Yn olaf, mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2017 a sut yr aed i'r afael â hwy yn ystod yr archwiliad.

¹ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Adran 1: archwiliad o gyfrifon

- 23 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.
- 24 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
 - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
 - a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
 - a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel arfer) yn gyson â nhw; a
 - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.
- 25 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

Rwyf wedi rhoi barn amodol ar reoleidd-dra datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17, ac wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater ac wedi cyflwyno adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn archwilio

Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

- 26 Derbyniais gyfrifon drafft ar y dyddiad cau ac roedd y papurau gwaith ategol o ansawdd da.
- 27 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Bwrdd Iechyd ar 1 Mehefin 2017. Mae [Arddangosyn 1](#) yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd ac yn darparu sylwadau arnynt.

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Camddatganiadau nas cywirwyd	Ni chafwyd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd.
Camddatganiadau a gywirwyd	Gwnaethpwyd sawl addasiad i'r cyfrifon drafft, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â naratif ychwanegol er mwyn rhoi mwy o eglurhad.
Materion pwysig eraill	Rhoddais farn amodol ar reoleidd-dra a chyhoeddais adroddiad o sylwedd gan na wnaeth y Bwrdd lechyd gyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb ar gyfer y tair blynedd a oedd yn dod i ben 2016-17.

- 28 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, gwneuthum hefyd gynnal adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i contract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd lechyd ar 31 Mawrth 2017, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- 29 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol cronfeydd elusennol y Cyngor wedi'i gwblhau a rhoddais farn ddiamod ar y cyfrifon ym mis Rhagfyr 2017.

Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd lechyd

- 30 Adolygais reolaethau mewnol y Bwrdd lechyd a oedd yn berthnasol i'r archwiliad yn fy marn i er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risg o gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni chawsant eu hystyried gennyf at ddibenion mynegi barn ar eu heffeithiolrwydd o ran gweithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd lechyd.

Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

- 31 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd lechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
 - adolygu trefniadau cynllunio a chyflawni arbedion ariannol y Bwrdd lechyd a'u cyfraniad at fantoli'r gyllideb;

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig, gan gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni argymhellion yr asesiad strwythuredig a wnaed y llynedd;
 - asesu'r defnydd o ymarferion paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol;
 - gwaith penodol ar y defnydd o adnoddau ar wasanaethau radioleg, gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau a threfniadau cynllunio i ryddhau cleifion; ac
 - asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan waith archwilio blaenorol ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol, ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain hynt argymhellion archwilio allanol.
- 32 Rwyf hefyd wedi ymgymryd â gwaith archwilio perfformiad sydd wedi archwilio trefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, a'r trefniadau cydweithio rhwng timau iechyd cyhoeddus lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- 33 Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith y cyfeirir ato uchod o dan y penawdau canlynol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau ariannol sylweddol ac, er bod y dull o gynllunio a chyflawni arbedion yn atgyfnerthu'r trefniadau sydd ar waith, nid yw'n helpu'r Bwrdd i adennill ei ddiffygion ariannol eto

- 34 Yn ogystal â rhoi sylwadau ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd, mae fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig yn 2017 wedi ystyried y camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fantoli'r gyllideb a chreu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy. Rwyf wedi asesu'r trefniadau corfforol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad. Rwyf hefyd wedi adolygu'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr asesiad strwythuredig blaenorol ynghylch rheolaeth ariannol. Crynhoir fy nghanfyddiadau isod.

Er bod perfformiad y Bwrdd Iechyd o ran sicrhau arbedion yn 2017-18 yn edrych yn fwy addawol, mae gorwariant hanesyddol yn erbyn terfynau adnoddau yn golygu y rhagwelir y bydd ganddo ddiffyg cronol cynyddol o £139.7 miliwn erbyn mis Mawrth 2018

- 35 Nododd fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i fantoli'r gyllideb ers 2013-14, gyda diffyg tair blynedd o £88.3 miliwn ar gyfer y cyfnod 2014-17. Nid yw'n disgwyl gallu mantoli'r gyllideb yn 2017-18, gyda diffyg cynlluniedig o £58.9 miliwn ar hyn o bryd, er bod hon yn sefyllfa well o gymharu â'r diffyg cynlluniedig yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae diffyg tair blynedd y Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod 2015-18 wedi cynyddu i £139.7 miliwn.

- 36 Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes gwael o gyflawni'r targedau arbedion a nodwyd ganddo ac mae hyn wedi gwaethygu hyd at fis Mawrth 2017. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer sicrhau arbedion. Nid yw wedi llwyddo i gyflawni'r targedau hyn ond, yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, mae wedi gosod targedau mwy uchelgeisiol na'r rhai a gyflawnwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r diffyg wedi bod yn fwy sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae twf heb ei gynllunio mewn costau gwasanaethau wedi ychwanegu at y diffyg ariannol.
- 37 Nododd fy nhîm fod cryn dipyn o amrywiad o ran llwyddiant cynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17. Cytunodd y Bwrdd Iechyd ar gynllun arbedion o £29.4 miliwn ond dim ond £8.9 miliwn o arbedion a sicrhawyd. Sicrhaodd rhai cynlluniau ganlyniadau gwell na'r targedau arbedion ond ni lwyddodd rhai eraill i gyflawni'r targed. Mae hyn yn dangos bod gan y Bwrdd Iechyd gryn le i wella ymhellach ei drefniadau cynllunio a chyflawni arbedion.
- 38 Nid yw cynlluniau arbedion y Bwrdd Iechyd yn pontio'r bwlch a nodwyd o ran ei adnoddau ac mae'r sefyllfa ar gyfer 2017-18 a thu hwnt yn edrych yn heriol iawn. Ar ôl chwe mis, roedd y Bwrdd Iechyd yn bwriadu sicrhau arbedion o £26.4 miliwn, gydag £1.8 miliwn arall o arbedion nas nodwyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl cyflawni ei ddiffyg cynlluniedig o £58.9 miliwn ond mae'r sefyllfa ar ôl chwe mis yn awgrymu y bydd ganddo ddiffyg o £67.7 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n rhoi mesurau adfer ariannol ychwanegol ar waith, a nododd papur diweddar i'r Bwrdd fod y diffyg rhagamcanol ar ddiwedd y flwyddyn wedi gostwng i £62 miliwn.

Ni fu'r trefniadau blaenorol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion yn effeithiol nac yn gynaliadwy, ond mae arwyddion bod pethau'n gwella ers cyflwyno'r broses drawsnewid gyda chyfle i wella'r ffocws ar drawsnewid gwasanaethau, gwella gwerth, effeithlonrwydd a lleihau gwastraff

- 39 Nododd fy nhîm fod arweinyddiaeth gorfforaethol a gwaith rheoli arbedion wedi bod yn aneffeithiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda diffyg perchenogaeth o ran cynlluniau arbedion. Roedd angen dull mwy strategol a thrawsnewidiol, ynghyd â mwy o atebolrwydd, er mwyn sicrhau bod mwy o staff yn ymrwymo i fynd i'r afael â'r her ariannol.
- 40 Mae'r broses o gyflwyno'r Rhaglen Drawsnewid, ynghyd â phenodi Cyfarwyddwr Trawsnewid, wedi gwella'r ffocws ar newid trawsnewidiol er mwyn rhoi'r Bwrdd Iechyd mewn gwell sefyllfa ariannol. Mae'r capasiti i drawsnewid wedi bod yn gyfyngedig ond bydd y swyddfa rheoli rhaglenni newydd yn dechrau chwarae rôl fwy gweithredol wrth gefnogi'r agenda Trawsnewid.
- 41 Nododd fy ngwaith fod angen i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei drefniadau er mwyn helpu deiliaid cyllidebau i nodi arbedion a mynd ati i reoli o fewn eu cyllideb gyffredinol o ddydd i ddydd. Yn hanesyddol, nid yw'r gefnogaeth y mae'r tîm cyllid wedi'i roi i staff gweithredol wedi mynd ymhellach na darparu gwybodaeth ariannol i ddeiliaid cyllidebau. Nid yw'r dull hwn o weithredu yn sicrhau bod timau gweithredol yn cael y cymorth a'r her sydd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, mae camau yn cael eu cymryd i newid hyn drwy broses newid sefydliadol.

- 42 Mae absenoldeb dulliau cyllidebu o ddim o fewn cyfarwyddiaethau wedi'u rhwystro rhag nodi meysydd effeithlon ac aneffeithlon er mwyn sicrhau bod data ar gyfleoedd i wella costau yn llywio'r gwaith o nodi a llunio cynlluniau arbedion yn gywir. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gallu defnyddio data meincnodi i nodi arbedion effeithlonrwydd technegol, fel costau rhagnodi, mae arbedion effeithlonrwydd o ran cleifion allanol a theatrau llawdriniaethau wedi dechrau cael eu nodi hefyd erbyn hyn.
- 43 Mae'r gwaith o ledaenu arfer da a rhannu dysgu mewn perthynas ag arbedion ariannol yn gwella ond mae angen iddo gael ei ymgorffori'n llawn ac yn gyflymach. Mae dull y Bwrdd Iechyd o sicrhau arbedion a'i gynlluniau ariannol wedi aros yn ddigyfnewid fwy neu lai ers nifer o flynyddoedd. Tan yn ddiweddar, nid yw wedi mynd ati i fanteisio ar gynlluniau 'Buddsoddi i Arbed' Llywodraeth Cymru nac wedi rhoi unrhyw fentrau buddsoddi i arbed na chynlluniau gwobrwyo ar waith. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos parodrwydd i fabwysiadu egwyddorion gofal iechyd doeth sy'n seiliedig ar werth, er nad yw'r egwyddorion hynny wedi'u cynnwys eto yn y broses o gynllunio gwasanaethau.

Er bod y trefniadau sydd ar waith i fonitro a chraffu ar arbedion yn cael eu hatgyfnerthu, nid ydynt wedi'u cynnwys yn ddigonol eto ac mae mwy o waith i'w wneud o hyd ar lefel weithredol

- 44 Ochr yn ochr â'r Bwrdd, mae'r Pwyllgor Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad (BPPAC) yn gyfrifol am graffu ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd, ond mae'r amser a ganiateir i fynd i'r afael â'r agenda BPPAC wedi gostwng yn raddol. Mae is-bwyllgor cyllid newydd wedi'i sefydlu'n ddiweddar er mwyn sicrhau bod digon o sylw yn cael ei roi i sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd.
- 45 Ers penodi'r Cyfarwyddwr Trawsnewid, cynhelir cyfarfodydd 'dwyn i gyfrif' bob pythefnos gyda'r cyfarwyddiaethau gweithredol a'r gwasanaethau corfforaethol. Mae'r broses hon wedi sicrhau bod y broses arbedion ar lefel weithredol yn destun gwaith craffu yr oedd angen mawr amdano, ond mae angen sicrhau bod mwy o ffocws yn cael ei roi i'r sefyllfa ariannol yng nghyfarfodydd llywodraethu cyfarwyddiaethau a gwasanaethau, ac mewn adolygiadau rheoli perfformiad priodol.

Mae'r Bwrdd wedi parhau â'r gwaith o ddiffinio ei ofynion sicrwydd ac mae cynlluniau strategol yn mynd rhagddynt, ond mae angen iddo ddatblygu ei strwythurau gweithredol a'i drefniadau rheoli perfformiad ymhellach

46 Fel rhan o'r asesiad strwythuredig, rwyf wedi mynd ati i asesu trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd lechyd, gan gynnwys effeithiolrwydd y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni argymhellion asesiadau strwythuredig blaenorol. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

Mae'r Bwrdd lechyd yn dechrau datblygu ei strategaeth hirdymor ond nid oes digon o gynnydd wedi'i wneud hyd yma i lywio'r cylch cynllunio nesaf, ac mae angen gwneud mwy o waith i fonitro'r ffordd y mae'r cynllun blynyddol yn cael ei roi ar waith ar lefel weithredol

47 Methodd y Bwrdd lechyd â chyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd a gymeradwywyd ar gyfer 2017-2020, ac felly methodd â chyflawni'r ail o'i ddwy ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, yn rhannol oherwydd diffyg strategaeth gwasanaethau clinigol. Yn hytrach, ceisiodd y Bwrdd lechyd gytundeb i ddatblygu Cynllun Gweithredu Blynyddol, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2017.

48 Mae Cynllun Gweithredu Blynyddol y Bwrdd lechyd ar gyfer 2017-18 yn cynnwys cyfres o gynlluniau gweithredu, a chyfrifoldeb y BPPAC yw craffu ar y ffordd y caiff y cynlluniau gweithredu hyn eu rhoi ar waith ar ran y Bwrdd. Mae'r cynlluniau gweithredu yn gynhwysfawr ac yn nodi pan nad yw'r broses weithredu ar y trywydd iawn, ond nid yw'r cynlluniau hyn wedi'u datblygu mewn ffordd gydgyssylltiedig ac ychydig iawn o waith a wneir i olrhain cynnydd ar lefel weithredol. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cydnabod bod angen iddo atgyfnerthu'r ffordd y caiff ei gynlluniau eu datblygu ar gyfer y cylch cynllunio nesaf.

49 Yn 2017, sefydlodd y Bwrdd lechyd ei Raglen Trawsnewid, sy'n cwmpasu ei raglen waith i ddatblygu strategaeth gwasanaethau clinigol ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwaith yn dal i fod ar y cam dylunio ar hyn o bryd ac ni fydd yn barod i lywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2018-2021. Mae'r Bwrdd lechyd wrthi'n datblygu ei Gynllun Gweithredu Blynyddol ar gyfer 2018-19 gyda'r nod o'i ddatblygu yn unol ag amserlenni Llywodraeth Cymru.

Mae strwythur sefydliadol diwygiedig y Bwrdd lechyd yn aeddfedu ond gallai elwa ar drefniadau gweithio agosach rhwng gwasanaethau corfforaethol a gweithredol

50 Mae swyddi tîm gweithredol y Bwrdd lechyd bron i gyd wedi'u llenwi. Disgwyllir i'r Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau lechyd a benodwyd ymgymryd â'i swydd yn y Flwyddyn Newydd, ac mae proses recriwtio yn mynd rhagddi i lenwi swydd Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Hirdymor. Dechreuodd Cyfarwyddwr newydd lechyd Cyhoeddus a Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion yn eu swyddi yn ystod yr haf, a chrëwyd swydd newydd Cyfarwyddwr Trawsnewid a lenwyd hefyd yn ystod yr haf. Fodd bynnag, nododd fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad

strwythuredig fod yr uwch dîm rheoli yn fawr mewn cymhariaeth a bod angen i'r cyfarwyddwyr fod yn glir iawn ynghylch rolau a chyfrifoldebau ei gilydd. Mae'r cyfarwyddwyr yn dal i weithio drwy'r meysydd portffolio y maent yn gyfrifol amdanynt, gan nodi mwyfwy o gyfleoedd i sicrhau bod trefniadau cydweithio yn cael mwy o effaith ar y ffordd y caiff y Bwrdd lechyd ei redeg. Gallai rhai aelodau o'r tîm gweithredol fod yn fwy gweladwy ar draws y Bwrdd lechyd hefyd.

- 51 Ar lefel weithredol, mae'r timau triwriaeth bellach ar waith ar lefel cyfarwyddiaeth a gwasanaeth, ond mae'r strwythur yn dibynnu ar gryn dipyn o gyfathrebu er mwyn sicrhau gwaith traws-sefydliadol. Mae aeddfedrwydd y timau yn amrywio ac mae angen i glinigwyr fynd ati i ddatblygu eu sgiliau arwain o hyd. Mae hyn yn gosod cryn dipyn o bwysau ar y Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Yn ogystal, mae angen i rai o'r swyddogaethau corfforaethol gael eu hintegreiddio'n fwy â'r cyfarwyddiaethau er mwyn rhoi'r cymorth a'r her sydd eu hangen arnynt i reoli eu holl adnoddau.

Mae trefniadau sicrwydd y Bwrdd yn parhau i ddatblygu ac mae cynlluniau ar waith i wella effeithiolrwydd pwyllgorau, er bod effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd yn gadarn ar y cyfan

- 52 Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen iddo wella ei lifau sicrwydd ac integreiddio aelodau newydd o'r bwrdd. Cafwyd rhywfaint o drosiant o ran aelodau annibynnol, gyda thri aelod newydd yn cael eu penodi yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cadeirydd wedi rheoli'r broses hon yn effeithiol ac nid yw'r Bwrdd lechyd wedi wynebu'r fath drosiant o aelodau annibynnol â chyrrff eraill y GIG, sy'n gadarnhaol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r aelodau annibynnol drwy hyfforddiant a gwaith datblygu sefydliadol. Ochr yn ochr â gwaith tebyg gyda'r tîm gweithredol, bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod y Bwrdd yn perfformio'n dda.
- 53 Nododd fy nhîm fod y Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen i'w bwyllgorau wella er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn y sicrwydd angenrheidiol. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ad-drefnu'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSEAC) ac mae dau is-bwyllgor newydd wedi'u sefydlu i wella effeithiolrwydd y BPPAC.

Mae trefniadau rheoli risg yn parhau i gryfhau ond mae angen gwneud mwy ar lefel weithredol

- 54 Lansiodd y Bwrdd lechyd fframwaith rheoli risg newydd ym mis Medi 2017 ac, yn ystod sesiwn datblygu gyda'r Bwrdd, ailystyriwyd ei awydd i fentro a'i oddefiant risg. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r gofrestr risg gorfforaethol ers yr asesiad strwythuredig yn 2016, a chaiff risgiau eu hystyried ar lefel weithredol. Fodd bynnag, mae angen mynd ati nawr i ailddiffinio risgiau ar lefel weithredol ac, weithiau, mae'r dyddiadau adolygu risgiau mewn cofrestrau wedi mynd heibio.

Mae trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn helpu'r Bwrdd i gydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol, ond bydd ateb yr heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau Diogelu Data

Cyffredinol newydd a gofynion Cyber Essentials yn anodd gyda'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd

- 55 Nododd fy nhîm fod y tîm llywodraethu gwybodaeth newydd a sefydlwyd ym mis Hydref 2016 yn helpu i lywio'r agenda llywodraethu gwybodaeth. Mae'r polisïau cyfredol wrthi'n cael eu hadolygu ac mae camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â deddfwriaeth newydd erbyn mis Mai 2018. Fodd bynnag, mae angen cryn dipyn o waith ac mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd flaenoriaethu sut y caiff yr adnodd hwn ei ddefnyddio rhwng nawr a mis Mai nesaf.

Mae angen i drefniadau rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd gael eu cryfhau ar lefel weithredol er mwyn sicrhau bod modd rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd a'i bwyllgorau

- 56 Cafodd cynllun rheoli perfformiad diwygiedig, sy'n nodi rôl y BPPAC o ran ceisio sicrwydd, ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi. Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau sy'n gyfrifol am berfformiad gweithredol drwy raglen wedi'i hamserlennu o adolygiadau rheoli perfformiad. Nod yr adolygiadau hyn yw dwyn cyfarwyddiaethau i gyfrif am ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol; fodd bynnag, nododd fy nhîm nad oes digon o amser yn cael ei neilltuo a bod angen ehangu'r metrigau a ddefnyddir i fesur perfformiad. Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn targedau cenedlaethol yn gymysg o hyd, er bod ei berfformiad cyffredinol wedi gwella o gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- 57 Er bod adolygiadau rheoli perfformiad yn cael eu cefnogi gan y Cyfarwyddwr Nyrso, Ansawdd a Phrofiad Cleifion, byddai mwy o ymgysylltiad a chydberchenogaeth gan y tîm rheoli gweithredol yn cynyddu lefelau craffu a her cyfarwyddiaethau gweithredol. Mae angen mynd ati i wella trefniadau llywodraethu'r cyfarwyddiaethau eu hunain hefyd er mwyn sicrhau cysondeb o ran y graddau y caiff perfformiad eu priod adrannau eu hystyried.

O ganlyniad i faterion staffio, ychydig iawn o gynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud o ran y defnydd o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod achosion o dwyll a gordaliadau, ond mae hyn wedi gwella'n ddiweddar

- 58 Caiff yr ymarfer Menter Twyll Genedlaethol ei gynnal bob dwy flynedd, gan baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n adnodd effeithiol iawn ar gyfer canfod ac atal twyll a gordaliadau, a helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.
- 59 Cyflwynodd y cyrff sy'n cymryd rhan ddata i ymarfer paru data cyfredol y Fenter ym mis Hydref 2016. Rhoddais ganlyniadau'r ymarfer i'r cyrff hynny sy'n cymryd rhan ym mis Ionawr 2017. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfranogwr gorfodol yn y Fenter.
- 60 Ym mis Ionawr 2017, cafodd y Bwrdd Iechyd wybod am 7,223 o achosion o ddata cyfatebol drwy gymhwysiad gwe'r Fenter. Mae'r data cyfatebol hyn yn tynnu sylw at anghysondebau a all, pan gânt eu hadolygu, helpu i nodi twyll a gwallau. Er na fyddwn yn disgwyl i sefydliadau fynd ati i adolygu'r holl ddata cyfatebol, caiff rhai

ohonynt eu categoreiddio fel 'data cyfatebol a argymhellir', yr ystyrir eu bod yn risg uchel ac yr argymhellir felly y dylid eu hadolygu'n gynnar. Nodais 501 o achosion o 'ddata cyfatebol a argymhellir' ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

- 61 Mae cymhwysiad gwe'r Fenter, sy'n cofnodi canfyddiadau adolygiad y Bwrdd Iechyd o'i ddata cyfatebol, yn dangos mai ychydig o gynnydd y mae'r Bwrdd wedi'i wneud wrth adolygu'r data hynny, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddata cyfatebol rhwng cyflogresi. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd ychwaith wrth adolygu data cyfatebol sy'n ymwneud â thaliadau credydwy, a all helpu i nodi achosion o ddyblygu taliadau. At hynny, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r data cyfatebol a nodwyd yn adroddiadau paru data 750 a 752 y Fenter. Mae'r adroddiadau hyn yn paru data sy'n ymwneud â'r gyflogres, taliadau credydwy a data Tŷ'r Cwmnïau, a gallant helpu i nodi buddiannau staff nas datgelwyd a thwyll ym maes caffael. Rwy'n cydnabod bod y Bwrdd Iechyd wedi wynebu oedi ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wrth nodi enw cyswllt addas i arwain y gwaith o fynd i'r afael â data cyfatebol credydwy, sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o ddata cyfatebol y Fenter. Rwyf hefyd yn cydnabod, oherwydd trosiant yn y gwasanaeth gwrth-dwyll lleol, fod oedi wedi bod wrth ymateb i weddill y data cyfatebol. Mae'r materion hyn wedi'u datrys erbyn hyn ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi fy sicrhau y bydd yn mynd ati nawr i adolygu'r data cyfatebol hyn fel mater o frys.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd cyson o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd ac mae trefniadau effeithiol ar waith i olrhain hynt argymhellion archwilio

- 62 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn sgil y gwaith a wnaed ar yr asesiad strwythuredig y llynedd. O'r deuddeg argymhelliad, mae dau wedi'u cwblhau ac mae 10 yn mynd rhagddynt ond nid ydynt wedi'u cwblhau eto. Mae'r cynnydd hwn fwy neu lai'n gyson â'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gan y swyddog atebol.
- 63 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i gyflawni argymhellion asesiad strwythuredig 2016, gwneuthum hefyd ystyried effeithiolrwydd trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd o ran ymateb i argymhellion fy archwiliad. Nodais fod trefniadau cadarn ar waith yn y Bwrdd Iechyd i olrhain hynt fy argymhellion i, yn ogystal â'r argymhellion hynny a wnaed gan gyrrff archwilio ac arolygu eraill, gan gynnwys AGIC a'r Uned Gyflawni.
- 64 Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gyfarfod eithriadol ym mis Tachwedd 2017 i geisio sicrwydd a herio swyddogion atebol ynghylch pa mor gyflym yr oeddent yn mynd i'r afael â'r argymhellion a oedd yn weddill. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i'r pwyllgor monitro perthnasol hefyd. Ar hyn o bryd, mae fy nhîm yn ymgymryd â gwaith i roi sicrwydd ychwanegol bod y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a roddir gan swyddogion atebol yn adlewyrchu statws sampl o argymhellion yn gywir.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau sylweddol i wella'r broses o gynnwys rhanddeiliaid a chryfhau ei drefniadau ym maes gwybodeg, ond mae'n dal i ddibynnu ar gapasiti allanol i ysgogi newid ac mae angen iddo ddatblygu ei weithlu ymhellach

65 Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig wedi adolygu sut y rheolir nifer o ffactorau allweddol sy'n galluogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Crynhoir fy nghanfyddiadau allweddol yn [Arddangosyn 2](#).

Arddangosyn 2: canfyddiadau allweddol ynghylch y ffactorau sy'n galluogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau o'r asesiad strwythuredig

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol ynghylch y ffactorau sy'n galluogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau o'r asesiad strwythuredig.

Mater	Crynodeb o ganfyddiadau
Y gallu i reoli newid	Y Rhaglen Drawsnewid yw'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati i gyflwyno newidiadau i'w wasanaethau. Caiff y Rhaglen ei chefnogi gan ei swyddfa rheoli rhaglenni ond mae'n dal i ddibynnu ar gymorth ac arbenigedd ymgynghoriaethau allanol
Cynllunio'r gweithlu	Er bod gwelliannau o ran absenoldeb oherwydd salwch ac arfarniadau staff meddygol, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu nifer o heriau ym maes staffio, gan gynnwys nifer y swyddi gwag, y defnydd o staff dros dro, arfarniadau staff anfeddygol a chydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy hefyd i drawsnewid ei weithlu
Partneriaethau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid	Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd agored a rhagweithiol ac yn gweithio'n gadarnhaol gyda'i bartneriaid
TGCh a'r defnydd o dechnoleg	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud ymdrech unedig dros y flwyddyn ddiwethaf i atgyfnerthu ei drefniadau ym maes gwybodeg a chyflymu'r broses o gyflwyno ei strategaeth ddigidol, ond mae'n rhy gynnar i ddweud pa mor effeithiol y bydd y camau hyn

Er bod y gwasanaeth radioleg yn cael ei reoli'n dda ar lefel weithredol, mae gwasanaethau presennol a gwasanaethau yn y dyfodol yn wynebu risgiau yn sgil galw cynyddol, ôl-groniadau o ran adroddiadau, materion recriwtio a system TG nad yw'n diwallu anghenion y Bwrdd Iechyd

- 66 O ran fy ngwaith ar wasanaethau radioleg, nodais fod gan gleifion mynediad da at wasanaethau radioleg, ac eithrio gwasanaethau uwchsain, lle nad oes gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael. Mae'r amser y mae cleifion yn gorfod aros i gael archwiliad radiolegol wedi gostwng dros amser, ac nid oes yn rhaid i unrhyw gleifion aros yn hirach nag wyth wythnos erbyn hyn. Fodd bynnag, ni chaiff targedau ar gyfer cyflwyno adroddiadau eu cyflawni'n gyson, er gwaethaf y ffaith bod y Bwrdd Iechyd yn rhoi adroddiadau ar gontract allanol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu gweithgarwch clinigol yn rheolaidd ond mae cyfleoedd i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cynllunio a blaenoriaethu adolygiadau ym mhob maes gweithgarwch. Mae prosesau ar waith ar gyfer cofnodi ac ymchwilio i ddiwyddiadau a chwynion sy'n ymwneud â gwasanaethau radioleg, ond nid yw'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati i geisio barn cleifion ac mae adborth gan staff yn amlygu pryderon ynglŷn â'r amgylchedd i gleifion yn ysbytai Glangwili a Bronglais.
- 67 Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi bod y galw am wasanaethau radioleg wedi cynyddu ond oherwydd anawsterau wrth gael gafael ar ddata rheoli o RADIS², nid yw'n gallu mesur y cynnydd hwn ar hyn o bryd. Er mwyn rheoli'r galw, mae canllawiau ysgrifenedig ar gael i'r sawl sy'n atgyfeirio, er bod materion sy'n ymwneud ag ansawdd atgyfeiriadau yn awgrymu nad yw'r canllawiau hyn yn ddigonol nac yn cael eu defnyddio'n dda. Nododd fy ngwaith fod proses ar waith ar gyfer sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o slotiau apwyntiadau ond mae diffyg system TG integredig ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd yn golygu nad yw'r broses hon mor effeithlon ag y gallai fod. Mae lefelau staffio radiolegwyr wedi aros yn sefydlog er gwaethaf twf ar draws gweddill Cymru. Mae hyn, ynghyd â'r nifer uchel o swyddi gwag ar gyfer radiolegwyr a radiograffwyr a gweithlu hŷn, yn creu risgiau ariannol a risgiau i wasanaethau nawr ac, o bosibl, yn y dyfodol. Mae gan y Bwrdd Iechyd lai o radiolegwyr ond mwy o radiograffwyr mewn swydd o gymharu â chyfartaledd Cymru. Mae'r ddau grŵp yn gwneud mwy o archwiliadau o gymharu â chyfartaledd Cymru. Mae cyfraddau arfarnu yn dda ar y cyfan ond mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol a statudol yn wael. Mae gan y Bwrdd Iechyd fwy o beiriannau sganio CT ac MRI a llai o beiriannau sganio US y pen o'r boblogaeth o gymharu â chyfartaledd Cymru ond mae'r defnydd arferol a wneir ohonynt ar gyfer pob modd yn gyfyngedig i oriau agor traddodiadol.
- 68 Nododd fy nhîm fod strategaeth ddrafft ar gyfer y gwasanaeth radioleg ond nad oes unrhyw gynllun blynyddol na chynllun ar gyfer y gweithlu. Nid yw'r strategaeth yn nodi'r galw am y gwasanaeth nawr a'r galw am y gwasanaeth yn y dyfodol yn ddigonol. Mae'r trefniadau rheoli yn glir ond dim ond am gyfnod cymharol fyr y maent wedi bod yn weithredol, a hynny ar ôl cyfnod o ansefydlogrwydd o fewn y sefydliad. Caiff materion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth eu trafod gan bwyllgorau allweddol y Bwrdd Iechyd ond gallai'r gwasanaeth fabwysiadu dull mwy

² RADIS yw'r enw a roddir ar y System Gwybodaeth Radioleg

rhagweithiol o sicrhau bod pwyllgorau yn ymwybodol o'r materion sy'n wynebu'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi gorwario yn erbyn ei gyllideb ac wedi methu â chyflawni'r arbedion arfaethedig. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd raglen amnewid cyfarpar ar gyfer radioleg ac er nad yw'r cyfarpar sydd ar gael yn destun pryder ar hyn o bryd, bydd angen prynu cyfarpar newydd o fewn pum mlynedd. Yn gyffredinol, nid yw systemau TGCh radioleg yn diwallu anghenion y Bwrdd Iechyd a chaiff hyn ei ategu gan broblemau gyda'r isadeiledd sylfaenol. Mae lle i'r Bwrdd Iechyd wella'r ffordd y mae'n adrodd ar berfformiad.

Mae diffygion o ran trefniadau llywodraethu a materion y gweithlu sy'n bygwth cynaliadwyedd y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau; a nododd fy nhîm fod lle i wella negeseuon cyhoeddus am y gwasanaeth, agweddau ar ateb galwadau a'r rhyngwynebau â gwasanaethau eraill

- 69 Nododd fy adolygiad o wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau fod gan y Bwrdd Iechyd gynllun gweithredu ar gyfer y gwasanaeth ond nad yw llawer o'r camau gweithredu ynddo wedi'u rhoi ar waith o hyd. Mae gwaith gofal heb ei drefnu ehangach yn canolbwyntio'n bennaf ar wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau pan fo angen camau adferol, yn hytrach na mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol, datblygiadol. At hynny, nododd fy nhîm fod diffygion o ran trefniadau arweinyddiaeth glinigol a gweithredol, er bod gwaith ymgysylltu â gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau ymhlith swyddogion gweithredol ar gynydd. Ar yr adeg yr ymgymerais â'm gwaith, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn rheoli perfformiad y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau yn gadarn ac nid oedd yr archwiliadau clinigol yn ddigonol.
- 70 Mae gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau'r Bwrdd Iechyd yn dilyn model staffio traddodiadol yn bennaf ac mae'n ei chael hi'n anodd llenwi sifftiau. Mae lle i wella morâl, atgyfnerthu trefniadau cymorth i staff a mynd i'r afael â theimladau o annhegwch ar draws siroedd. Mae'r gwariant ar wasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau'r Bwrdd Iechyd yn gymharol uchel ac wedi cynyddu dros amser. Mae'r gwariant cryn dipyn yn fwy na'r cyllid tybiannol y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru.
- 71 Mae lle i wneud mwy er mwyn helpu cleifion i gael mynediad priodol at wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau drwy ddarparu gwell gwybodaeth a sicrhau bod meddygfeydd meddygon teulu ar agor drwy gydol cyfnod eu horiau craidd. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd y safon ar gyfer ateb galwadau'n gyflym eto ac, yn aml, mae cleifion sy'n cysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau yn dod â'u galwad i ben. Mae anghenion cleifion sy'n cysylltu â gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau Hywel Dda yn llai tebygol o gael eu diwallu'n llawn dros y ffôn o gymharu â chleifion ledled Cymru ac mae gwahaniaethau amlwg yn y ffordd y caiff y gwasanaeth brysbennu ei reoli a'r ffordd y caiff galwadau eu cymryd rhwng siroedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau ei fod yn darparu'r mwyafrif o apwyntiadau ac ymweliadau â'r cartref mewn ffordd amserol. Fodd bynnag, mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gymharol wael o ran gweld cleifion 'brys iawn' o fewn awr. Mae cleifion yn llai tebygol o gael eu

hatgyfeirio at wasanaethau eraill o wasanaeth y tu allan i oriau o gymharu â gweddill Cymru ac mae angen gwella'r rhyngwyneb a'r gydberthynas ag adrannau brys.

Mae rhywfaint o welliant o ran mesurau perfformiad allweddol sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion ond bydd yn rhaid aros peth amser cyn i ni weld effaith lawn y mentrau gwella.

- 72 Nododd fy ngwaith fod cynlluniau cynhwysfawr ar waith i wella trefniadau cynllunio ar gyfer rhyddhau ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o fentrau gwella a buddsoddiad. Mae llwybrau rhyddhau ffurfiol, a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt â phartneriaid awdurdod lleol, yn cael eu cyflwyno, er bod lle i atgyfnerthu'r Polisi Rhyddhau a Throsoglwyddo Gofal pan gaiff ei ddiweddarau nesaf.
- 73 Mae adnoddau amlddisgyblaethol pwrpasol ar waith i gefnogi trefniadau cynllunio i ryddhau cleifion, ac mae lolfeydd penodol ar gael er mwyn hwyluso'r broses ryddhau. Fodd bynnag, ymddengys bod y rhain yn cael eu tanddefnyddio. Mae staff wardiau yn hyderus ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wneud i gefnogi proses ryddhau ddiogel ac amserol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i gynorthwyo cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Fodd bynnag, anaml iawn y darperir hyfforddiant ym maes cynllunio i ryddhau cleifion ac mae rhai heriau, fel dibyniaeth ar staff asiantaeth, yn golygu bod y broses gynllunio honno yn fwy anodd.
- 74 Mae llinellau atebolrwydd clar ar waith ym maes cynllunio i ryddhau cleifion ac mae perfformiad yn destun gwaith craffu rheolaidd, ar lefel strategol a gweithredol. Caiff ystod o wybodaeth sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion ei chyflwyno'n rheolaidd i'r Bwrdd ac mae aelodau'r Bwrdd yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n effeithiol. Yn gyffredinol, mae perfformiad sy'n gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion yn gwella'n araf ond mae mwy i'w wneud er mwyn byrhau arosiadau a chyfnodau aros yn adrannau brys y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cyson o ran mynd i'r afael ag argymhellion gwaith archwilio blaenorol er bod y cynnydd yn gallu bod yn araf ac mae angen cymryd camau pwysig o hyd mewn perthynas ag apwyntiadau dilynol i gleifion allanol

- 75 Yn ogystal ag adolygu pa mor effeithiol yw trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed fel rhan o'm gwaith archwilio fel y trafodwyd **ym mharagraffau 51-52**, nododd fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd cyson o ran mynd i'r afael ag argymhellion gwaith archwilio blaenorol, er bod y cynnydd yn gallu bod yn araf ar brydiau. O'r argymhellion a oedd yn weddill a gyflwynwyd yng nghyfarfod eithriadol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Tachwedd 2017, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau 64 o'r argymhellion yn llawn, roedd tri wedi'u cwblhau'n rhannol ond roedd 32 heb eu cwblhau. Roedd tri argymhelliad arall heb eu cwblhau ond roeddent yn dal i fod o fewn yr amserlenni arfaethedig.
- 76 Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf hefyd wedi gwneud gwaith archwilio dilynol manwl i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r pryderon a'r

argymhellion sy'n deillio o waith archwilio blaenorol mewn meysydd darparu gwasanaethau penodol. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith dilynol hwn yn [Arddangosyn 3](#).

Arddangosyn 3: cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwiliadau mewn meysydd gwasanaeth penodol

Maes y gwaith dilynol	Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad
Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran apwyntiadau dilynol i gleifion allanol	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd araf wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad yn 2015, ac mae angen mwy o weithredu er mwyn nodi lefel y risg sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol sy'n destun oedi, gwella prosesau adrodd a chyflymu gwelliannau i'r gwasanaeth

Mae trefniadau comisiynu ar y cyd wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig o ran gwasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru; fodd bynnag, mae angen mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid er mwyn datblygu'r trefniadau hyn

- 77 Nododd fy adolygiad o drefniadau Cymru gyfan ar gyfer comisiynu gwasanaethau ambiwlans brys fod y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys (EASC) wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig, fel y gwaith o ddatblygu model CAREMORE³. Fodd bynnag, nid yw strwythurau a rolau i sicrhau atebolrwydd ar gyfer gwasanaethau ambiwlans brys yn glir. Nodais fod lle i egluro rolau EASC, Llywodraeth Cymru a Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwllans mewn perthynas â pherfformiad y gwasanaethau ambiwlans brys, cyllid a moderneiddio gwasanaethau. Hefyd, er bod y broses o sefydlu EASC wedi cefnogi perchenogaeth gwasanaethau ambiwlans brys ar lefel Cymru gyfan, nododd fy nhîm fod angen i EASC wneud mwy i sicrhau bod y gwaith o drawsnewid y gwasanaethau hynny'n mynd rhagddo. Yn ogystal, nid yw strwythur yr is-grŵp, sy'n ategu EASC, yn ddigon clir ac nid oes diben penodol iddo, ac mae hyn yn effeithio ar bresenoldeb staff y bwrdd iechyd a gallu'r is-grwpiau i wneud cyfraniad ystyrlon.
- 78 Mae partneriaid yn cefnogi'r model comisiynu ond mae cyflymder y gwaith sy'n cael ei wneud gan fyrdau iechyd i ysgogi'r newidiadau angenrheidiol i alluogi'r model i weithio fel y bwriadwyd yn amrywio, ac nid yw'r model ei hun yn ystyried gweithgarwch rhanbarthol na gweithgarwch trawsffiniol. Nododd fy ngwaith fod WAST a byrdau iechyd yn barod i gydweithio er mwyn gwella gwasanaethau ambiwlans, ond mae lefel perchenogaeth perfformiad ambiwlansys brys a'r gwaith o foderneiddio'r llwybr yn amrywio rhwng byrdau iechyd, gyda'r prif ffocws ar gamau diweddarach y llwybr ambiwlans, megis trosglwyddiadau gan ambiwlansys. Nodais fod WAST yn ymateb yn briodol i gytundebau a bennwyd gan EASC. Fodd

³ Mae model CAREMORE® yn fodel comisiynu 'a wnaed yng Nghymru'. Mae ei nod masnach cofrestredig yn eiddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar ran GIG Cymru.

bynag, mae cydymffurfiaeth byrddau iechyd â'r gofynion a nodir yn CAREMORE®, a'u dealltwriaeth ohonynt yn amrywio.

- 79 Nododd fy ngwaith fod trefniadau comisiynu yn ategu rhai gwelliannau i wasanaethau ambiwlans brys. Mae'r broses o gyflwyno'r model ymateb clinigol newydd yn helpu partneriaid i gyflawni targedau perfformiad Llywodraeth Cymru, ac mae'n bosibl y gwelir gwelliannau pellach mewn perfformiad yn sgil mentrau eraill y cytunwyd arnynt yn ddiweddar. Mae newidiadau arfaethedig i wasanaethau a'r gwaith o fonitro perfformiad partneriaid yn cael ei gysoni fwyfwy â'r Llwybr Gofal Ambiwllans (y cyfeirir ato fel y model pum cam). Fodd bynnag, mae angen mwy o gysondeb rhwng byrddau iechyd ac mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'n cael effaith. Mae cyfres o fesurau llawer gwell ac ehangach sy'n canolbwyntio ar weithgarwch a pherfformiad drwy Ddangosyddion Ansawdd Ambiwllans. Fodd bynnag, nid yw partneriaid yn gwneud digon eto i ddeall canlyniadau a phrofiadau cleifion sy'n cael gofal ambiwlans brys yn llawn.

Nid yw trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent

- 80 Nododd fy adolygiad o drefniadau cydweithredol rhwng Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) a byrddau iechyd ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol fod cydweithredu effeithiol mewn perthynas â gwaith gwella ym maes iechyd yn dibynnu ar arweinyddiaeth gydsyniol, ac nid yw hyn bob amser yn amlwg. Yn y system iechyd cyhoeddus yn gyffredinol, mae ystod eang o bobl a sefydliadau yn cyfrannu at ddiogelu a gwella iechyd a lles, a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Nid oes yr un sefydliad yn gwbl gyfrifol am sicrhau gwelliannau i iechyd a lles y boblogaeth, ac mae angen cydweithredu effeithiol er mwyn gwneud hynny.
- 81 Er nad yw efallai'n ddymunol nodi un arweinydd system, mae angen mwy o eglurder ynghylch rolau priodol y rhanddeiliaid gwahanol o fewn y system. Nododd fy ngwaith fod diffyg deialog ystyrion rhwng yr Ymddiriedolaeth, timau iechyd cyhoeddus lleol a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus ynghylch rolau, cyfrifoldebau a fframwaith cytûn ynghylch y math o waith a gyflawnir orau ar y cyd.
- 82 Ar hyn o bryd, nid oes trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau bod yr adnoddau a ddyrennir i dimau iechyd cyhoeddus lleol yn rhoi gwerth am arian. Ni chynhelir unrhyw gyfarfodydd rhwng yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus i drafod sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio i wella iechyd a lles a ph'un a ydynt yn cyflawni'r budd a fwriadwyd. Nododd fy ngwaith hefyd nad oes dulliau cadarn o ddyrannu adnoddau i dimau iechyd cyhoeddus lleol na newid yr adnoddau hynny. Yn hytrach, cynhelir trafodaethau ad hoc pan ddaw swyddi'n wag.
- 83 Nododd fy ngwaith fod trefniadau ar waith i gefnogi'r gwaith o gofrestru staff proffesiynol a leolir mewn timau lleol, ond mae angen mwy o eglurder ar y ffordd y defnyddir hyn i ddangos cymhwysedd proffesiynol a dilyniant gyrfa. Mae trefniadau newydd hefyd yn helpu i atgyfnerthu prosesau arfarnu a chynllunio datblygiad personol, ond mae angen gwneud mwy i asesu anghenion datblygu cyfunol timau iechyd cyhoeddus lleol.

- 84 Nid yw systemau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a thimau iechyd cyhoeddus lleol wedi'u datblygu'n ddigonol. Nid oes unrhyw ddull gweithredu safonol ar gyfer rhannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn y mae chwaraewyr gwahanol yn ei wneud ar lefel genedlaethol a lleol. Nododd fy ngwaith hefyd fod diffyg trefniadau ar gyfer cydgysylltu gwaith a ddatblygir neu a gyflwynir yn lleol neu'n genedlaethol, a chyfleu gwybodaeth i'r un partneriaid a rennir.
- 85 Rwyf wedi nodi ymateb cyfunol a chydweithredol rheolwyr yr Ymddiriedolaeth, byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru i'm canfyddiadau. Rwy'n bwriadu ymgymryd â gwaith pellach yn 2018 er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'm hargymhellion.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 4: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2017.

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiadau archwilio ariannol	
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol	Mehfin 2017
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehfin 2017
Adroddiadau archwilio perfformiad	
Gwasanaethau Radioleg	Ebrill 2017
Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans Brys	Ebrill 2017
Gwasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau	Ebrill 2017
Trefniadau Cydweithredol ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Lleol	Hydref 2017
Adolygiad o Gynllunio Rhyddhau Cleifion	Hydref 2017
Asesiad Strwythuredig 2017	Rhagfyr 2017
Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran Apwyntiadau Dilynol i Gleifion Allanol	Rhagfyr 2017
Adroddiadau eraill	
Cynllun Archwilio 2017	Mawrth 2017

Arddangosyn 5: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo a dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig

Adroddiadau perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y bwrdd iechyd gyda dyddiadau amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r gwaith

Adroddiad	Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig
Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd wrth weithredu argymhellion archwiliad TGCh blaenorol	Ionawr 2018
Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd wrth weithredu argymhellion archwiliad blaenorol mewn perthynas â nyrsio ardal, gwasanaethau mamolaeth, orthopedeg a theatrau llawdriniaethau	Mawrth 2018
Adolygiad o Ofal Sylfaenol	Mehfin 2018
Adolygiad trawsbynciol o'r Gronfa Gofal Integredig	Hydref 2018

Atodiad 2

Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2017 ffi archwilio arfaethedig o £401,355 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

Atodiad 3

Risgiau archwilio sylweddol

Arddangosyn 6: risgiau archwilio sylweddol

Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2017 y risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2017. Mae'r tabl yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

Risg archwilio sylweddol	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none">• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol.	Gwnaeth fy nhîm archwilio y canlynol: <ul style="list-style-type: none">• profi'r cofnodion mewn dyddlyfrau.• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu, yn enwedig taliadau gofal sylfaenol.• ni nodwyd unrhyw drafodion nad oes a wnelont â busnes arferol. Ni chododd unrhyw faterion yn sgil y gwaith a wnaed.
Mae risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod referniw ac, fel y cyfryw, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.26-27].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none">• adolygu a phrofi ffrydiau ariannu ac incwm unigol a gafwyd gan y Bwrdd lechyd; ac• ystyried a yw'r holl ffrydiau ariannu ac incwm wedi'u nodi	Aeth fy nhîm archwilio ati i adolygu ffrydiau incwm o ran eu cyflawnder a phrofi eu cywirdeb. Ni chododd unrhyw faterion yn sgil y gwaith a wnaed.
Ceir risg sylweddol y bydd y Bwrdd lechyd yn methu â chyflawni ei all-dro rhagolygol. Dangosodd y sefyllfa ym mis 9 fod diffyg o £43.842 miliwn hyd hynny yn ystod y flwyddyn a rhagwelwyd y byddai diffyg o £51.815 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'n debygol y bydd angen i mi roi barn amodol ar reoleidd-dra cyfrifon y Bwrdd lechyd, gan y bydd yn methu â	Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ar brofi rhannau o'r datganiadau ariannol a allai fod yn unochrog.	Aeth fy nhîm archwilio ati i adolygu trafodion ar ddiwedd y flwyddyn, yn enwedig cronadau a thorbwyntiau. Ni chododd unrhyw faterion yn sgil y gwaith a wnaed.

Risg archwilio sylweddol	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>chyflawni ei ddyletswydd ariannol i aros o fewn ei derfyn adnoddau tair blynedd.</p> <p>Gallai'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd lechyd gynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod yn unochrog mewn ymdrech i fodloni'r terfyn adnoddau.</p>		

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Text phone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru